

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 1 Rhif 6

Yn rhad ac am ddim

Medi 2020

Tipyn o Wiwer

Dw i'n hoffi garddio ac i mi pwrpas garddio yw cael bwyd ar y bwrdd. Roedd Dad wrth ei fodd yn tyfu llysiau a ffrwyth meddal ac yn cadw ein teulu mawr mewn bwyd trwy'r flwyddyn. Hyd yn oed ar ôl i ni'r plant symud allan i'r byd mawr ddrwg wnaeth o ddim torri nôl ar faint oedd yn tyfu. Pob tro oeddem yn ymweld â nhw roedd rhaid derbyn llwyth o lysiau i fynd yn ôl â ni. Un gwanwyn pan oedd o tua 96 oed wnaeth o gyfaddef i mi nad oedd yn meddwl y bydda fo'n gallu gwneud y garddio bellach. Dyna pryd nes i benderfynu gwneud y gwaith trwm iddo. Roedd Mam yn dweud wrthon ni ei fod yn crwydro i fyny'r ardd llawer gwaith mewn diwrnod i weld sut roedd pethau'n tyfu. Roedd Mam yn dda iawn yn y gegin ac yn gwneud yn siŵr bod digon yn y rhewgell i barhau dros y gaeaf.

Does gen i ddim llawer o ardd gefn ond mae gen i 20 o goed afalau wedi ei phlannu fel cordons. Mi wnes i blannu nhw bedair blynedd yn ôl felly dyma'r flwyddyn i mi gael y cnwd cyntaf. Mae yna rhai i goginio, rhai i fwyta a rhai ar gyfer seidr. Allan o'r ugain mae pedwar ar ddeg yn ffrwytho. Beth dw i'n mynd i wneud efo'r ffrwyth? Bydd rhai yn cael eu bwyta'n syth ond bydd y rhan fwyaf yn mynd i'r rhewgell.



Mae crymbl yn ddigon hawdd i'w wneud, er does gen i ddim ofn gwneud pethau mwy cymhleth, ac yn ffodus iawn ges i gnwd da o wsberis yn y gwanwyn. A beth ydw i wedi bod yn gwneud dros yr wythnosau diwethaf? Hel mwya'r duon! Erbyn hyn mae gen i dros ddeg kilo yn oer ac yn ddiogel yn y rhewgell.

Mae'n rhaid i mi ddweud mae hel mwya'r duon wedi datblygu i fod yn aflonyddwch i mi, bysech yn meddwl bod deg kilo yn ddigon, ond mae gymaint ar ôl! A dach chi'n gwybod beth? Maen nhw'n crwydro i mewn i fy mreuddwydion. Dw i'n gwneud nodyn o faint dw i'n casglu pob tro a diddrol iawn yw gweld faint mwy sydd ar gael wrth i'r dyddiau mynd heibio. Mi fydd wythnosau o gasglu i ddod ond dw i'n agos iawn at gael digon i gadw fi i fynd am y flwyddyn nesaf.

Dw i wedi gweld bod llawer o eirin duon bach yn aros yn amyneddgar amdanaf! Dyna fydd y peth nesaf!

Ia wir, wrth i mi heneiddio, dw i'n datblygu i fod yn dipyn o wiwer!

O.N. dw i'n ysgrifennu'r stori yma wrth eistedd yn yr heulfan, mae'r drws ar agor i'r ardd. Mae Robin Goch newydd lanio ar y patio ar flaen y drws, troi ei ben ataf fi, dweud 'tship tship' a hedfan i ffwrdd. Braf cael ffrindiau!

Llefydd i'w Gweld yng Nghymru

gan Martin Jones

Yn ddiweddar yn ein dosbarth Cymraeg Zoom, roedden ni'n siarad am lefydd i'w weld yng Nghymru, ac roedd gwrando ar ddewision pawb yn ddiddorol iawn. Sut oedden nhw'n penderfynu pa lefydd i gynnwys yn eu rhestri? Pa faen prawf oedden nhw'n eu defnyddio -

harddwch naturiol, hanes y lle, ac yn y blaen? Wel, a dweud y gwir, cyfuniad o nifer o elfennau, ac wrth awgrymu fy llefydd i'w gweld rydw innau hefyd wedi gwneud yr un



peth. Yn ein dosbarth, dewisodd pawb deg o lefydd, ond yma rydw i'n mynd i gadw at ddim ond dau.

Rydw i'n mynd i ddechrau yn agos iawn at gartref, achos taw Bae Pwll Du ydy fy newis cyntaf oherwydd ei harddwch naturiol a'i hanes sydd wedi bod yn ffactor hanfodol mewn cyfrannu at ei harddwch unigryw. I fi, y ffordd gorau i gyrraedd y bae ydy cerdded i lawr Cwm Llandeilo Ferwallt er mwyn mwynhau'r cyferbyniad rhwng cerdded mewn cwm ac wedyn dod allan ar un o faeau harddaf nid yn unig ym Mhenrhyn Gŵyr ond hefyd yng Nghymru i gyd. Mae'n anodd iawn heddiw dychmygu Pwll Du ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd y bae'n safle diwydiannol o ganlyniad i'r chwarel calchfaen yno, a hen dafarnau i dorri syched y gweithwyr oedd y ddau dŷ y tu ôl i'r traeth.

Roedd y calchfaen yn cael ei lusgo o'r clogwyni i'r traeth a chael ei dorri i mewn i ddarnau llai er mwyn ei llwytho ar longau. Mae'n debyg y byddai'r capteiniaid yn agor môr-falfiau y llongau

(pan oedd y llanw'n mynd allan) er mwyn eu "suddo". Pan oedd y llong yn eistedd ar waelod y môr, bydden nhw'n cau'r môr-falfiau er mwyn sicrhau bod y llong yn llawn dŵr. Bydd y dŵr yn lleihau pwysau'r cerrig ar ffrâm y llong wrth iddyn nhw gael eu llwytho. Wedyn, bydden nhw'n draenio'r dŵr ac ail-lansio'r llong pan oedd y llanw'n dod i mewn. Mae'r twyni cerrig sy'n

nodweddiadol o'r bae ac sydd yn gwneud y bae yn unigryw yn ganlyniad o'r gwaith o dorri'r calchfaen mewn darnau bach.

Mae fy ail ddewis yn mynd â ni i Ogledd Cymru - i

Lanystumdwy, cartref David Lloyd George. Hanes ydy fy mhrif reswm am y dewis hwn, ond hefyd ar gyrion y pentref gallwch ymweld â'i fedd sydd yn sefyll mewn lle mor hardd a thawel. Ar y naill law, dyn dadleuol, yn enwedig ynglŷn â'i fywyd personol, oedd David Lloyd George. Ond ar y llaw arall, fel Canghellor y Trysorlys, roedd e'n benderfynol o gyflwyno rhaglen anferth o lesiant cymdeithasol: pensiynau henoed, yswiriant iechyd, a thaliadau diweithdra - yn ogystal â mesurau i gynyddu trethi (gan gynnwys treth uwch ar incwm uwch) i dalu am y rhaglen. Dylen ni gofio taw dyn a gafodd ei fagu gan ei ewythr mewn bwthyn crydd, oedd heb fynd i'r brifysgol ond ddaeth yn Brif Weinidog oedd Lloyd George.

Wrth ymweld â Llanystumdwy, gallwch chi weld bwthyn y crydd (gan gynnwys ei weithdy) lle gwnaeth Lloyd George fyw gyda'i frawd, ei fam, ei ewythr Richard (a oedd yn grydd), a'i fam-gu ar ôl i'w dad farw yn fuan ar ôl iddo fe gael ei eni. Wedyn, gallwch chi gerdded i ymweld â'i fedd (a gafodd ei gynllunio gan Clough Williams-Ellis) a

leolir uwchben Afon Dwyfor. Mae'r fynedfa trwy glwyd mewn bwa cerrig, ac mae'r bedd ei hun o dan garreg fawr ynghanol clos hirgrwn â muriau isel o'i gwmpas. Mae'n lle hardd a thawel a dim ond sŵn swynol yr afon i'w clywed yn y cefndir.

Wrth gwrs, mae cymaint mwy o lefydd y gallwn i fod wedi eu dewis, ond beth amdanoch chi? Pa lefydd fydddech chi'n eu hawgrymu – a pham?

Pytiau Bach

Rhifau Personol

Erbyn hyn dw i'n siŵr y gallaf gerdded o gwmpas fy chwarter milltir sgwâr efo fy llygaid ar gau. Does dim angen canolbwyntio ar ddim byd felly pan mae rhywbeth yn fy nharo i mae fy nychymyg yn rhydd i fynd yn wyllt.

Mae llawer o geir efo rifau personol i'w gweld ac maen diddorol dychmygu pwy yw'r bobl tu ôl i'r llyw, fel petai. Mae dau gar o flaen un tŷ a'r llythrennau yw GAJ felly mae Dad Gaj, Madge Gaj ac mae ganddyn nhw efeilliaid ifanc iawn. Nhw, wrth gwrs yw'r Gaj-ettes. A phethau da yw Gaj-ettes ynte! Handi iawn

Chwythu Stêm

Roeddwn i wedi cael ychydig o ddyddiau yn y Gogledd a ches i ddiwrnod o seiclo. Diwrnod arbennig o braf ac yn y bore mi nes i seiclo i ben draw Cwm Pennant. Dyma'r tro cyntaf i mi wneud hynny ar y beic ac nad ydych yn gwbl ymwybodol o'r ellytydd pan dach chi yn y car. Roedd llawer ohonyn nhw ac wrth gadw fy llygaid at y llawr cyrhaeddais y pen bob tro. Roeddwn yn edrych ymlaen at gael hoe fach wrth yr afon cyn troi nôl ond roedd y lle yn llawn o bobl yn cael picnic enfawr. Doeddwn i ddim yn flin achos roedden nhw'n siarad Cymraeg. Pen-blwydd yn y teulu efallai!

Gan fy mod i wedi mwynhau'r daith es i allan eto yn y prynhawn a seiclo o Lanfrothen i Groesor ac roeddwn yn edrych ymlaen at weld y lle unwaith eto. Roedd gan Wncl John ac Anti Nanw tyddyn

ar ochr y mynydd uwchben Croesor ac mae gen i atgofion melys o'r gwyliau cawsom ni yna. Es i mor bell â Chroesor, a dim bellach achos roeddwn yn sicr nad oeddwn yn mynd i drïo seiclo i fyny at y tŷ! Nid y tro yma beth bynnag. Hanner ffordd roedd un allt hir ac unwaith eto dyma fi a fy mhen i lawr ac yn y gêr isaf yn hwffian ac yn pwffian tuag at y pen. Tri chwarter o'r ffordd roedd Mam yn gwthio'i phlentyn mewn cadair wthio. Wrth i mi fynd heibio nhw dyma'r plentyn yn gofyn "Mam, beth ydy'r sŵn yna?" a finnau efo dim ond digon o anadl i egluro "Dim ond fi!"

Roedd o'n lwcus yndoedd, yn gallu eistedd yn gyfforddus tra bod ei fam yn gwneud yr holl waith!

Plant eto!

Roeddwn i'n hel mwyar duon ac yn gwisgo het ar fy mhen. Doth teulu heibio a'r bachgen yn edmygu fy het. "dach chi'n gowboi?" gofynnodd. "ydw" medde fi. "Ble mae'ch ceffyl?" gofynnodd. "Adref yn paratoi at y rodeo" medde fi. Roedd o'n ddigon hapus efo'r ateb.

Dysgu Cymraeg yn y Cyfnod Clo

gan Shelagh Fishlock

Amser maith yn ôl, pan o'n ni'n credu bod y byd yn ddiogel, ac yn cwrdd â ffrindiau y tu fewn eu tai nhw, ro'n i'n mynd o Loegr i ddosbarthiadau Cymraeg ddwywaith yr wythnos, ac yn mwynhau teithio yng Nghymru yn aml. Ro'n i'n bwriadu sefyll arholiad Cymraeg ym mis Mehefin, a mynd ar wyliau yn Eryri ym mis Gorffennaf gyda ffrindiau o Gymru. Mae'n amlwg nad oedd hynny i fod, oherwydd y firws.

Pan stopiodd popeth dros nos yng nghanol mis Mawrth, roedd yn ymddangos y basau'r dosbarthiadau'n dod i ben hefyd, ond cyn pen dim roedd y tiwtoriaid wedi trefnu cyrsiau ar Zoom neu ar Skype, ac roedd y Mentrau Iaith wedi trefnu pob math o weithgareddau Cymraeg.

Ar y dechrau roedd hi'n brofiad rhyfedd, gyda llawer o broblemau sain a signal, ond fesul tipyn daethon ni i arfer â dysgu a chymdeithasu ar lein. Wedyn cyrhaeddodd cyfleoedd newydd - ymuno â gwahanol grwpiau dros Gymru, a chwrdd â phobl o sawl ardal, hyd yn oed o dramor. Ces i gyfle i siarad Cymraeg â phobl o Wrecsam, Bangor, Ceredigion, Gwlad Belg ac o Awstralia, a hefyd â phobl do'n i ddim yn ei nabad o Fryste, ble dw i'n byw.

Er bod hel clecs yn rhyngwladol yn hwyl, erbyn diwedd Mehefin ro'n i'n diflasu yn y tŷ, a hefyd roedd hi'n amlwg na fyddai'r cyfnod clo yn dod i ben yn fuan. Felly, penderfynais i fanteisio ar y sefyllfa gan gofrestru ar gwrs dwys 6 wythnos gyda Phrifysgol Caerdydd. Baswn i ddim wedi gallu gwneud hynny tasai'r dosbarth yng Nghaerdydd, ond dros Zoom mae hi'n bosib mynd i'r dosbarth mewn sliperi heb adael y tŷ.

A dweud y gwir, dyw dysgu ar lein ddim yn ffordd hawdd i'w wneud. Mae sawl awr bob dydd o flaen sgrin yn flinedig iawn, dyw'r dechnoleg ddim yn gweithio bob tro, a phrofiad od iawn yw symud i "siambrau siarad" (neu "breakout rooms") ar gyfer sgwrs mewn parau neu grwpiau bach. Serch hynny, dw i wedi mwynhau'r cwrs, roedd y tiwtoriaid yn wych a fy nghyd-ddysgwyr yn hyfryd. Efallai y bydd cyfle i ni gwrdd wyneb yn wyneb yn y dyfodol.

Roedd hi'n her go iawn cwblhau'r cwrs mewn chwe wythnos, un fydd wedi para dwy flynedd mewn dosbarth nos, a dw i'n siŵr fy mod i angen mwy o amser i gymathu popeth ac i gofio'r eirfa, ond profiad gwych oedd e. Bydd y dosbarthiadau'n parhau ar lein tan Nadolig o leiaf, ond diolch byth dw i'n gallu dod yn ôl i Gymru erbyn hyn. Dw i'n edrych ymlaen!

Lloerig

Dyma fi'n gorwedd yn y gwely yn hanner cysgu ac yn ofn agor fy llygaid i edrych ar y cloc. Unwaith dw i'n agor fy llygaid does dim gobaith mynd yn

ôl i gysgu wedyn. Tybed beth mae'r tywydd yn gwneud? Dydw i ddim yn clywed glaw, mae hynny'n beth da, ond mae'r gwynt yn sisial trwy'r coed. Gair da yw sisial, mae'n golygu 'rustling' y sŵn mae llond canghennau o dail yn gwneud pan maen nhw'n symud yn y gwynt. Felly mae hi'n wyntog er nad yw'r gwynt yn rhuo. Tybed faint o'r gloch yw hi? Well i mi edrych - tynnu at bedwar o'r gloch. A wel, dydy hi ddim yn rhy gynnar i godi felly. Golchi a gwisgo, wedyn pwysu'r botwm ar y peiriant espresso ac aros yn amyneddgar tan i'r hylif tywyll lifo i'r cwpan. Mi fydd o leiaf dri chwarter awr tan i'r haul godi. Efallai af i allan am dro i groesawu'r wawr. Mi wna i feddwl am y syniad tra mod i'n mwynhau'r coffi. Ia, mae'r syniad yn tyfu. Does dim byd gwell na dechrau'r diwrnod yn gynnar ond fy marn i yw hynny, does dim rhaid i chi newid eich ffordd o fyw. Arhoswch chi yn glud ac yn gynnes yn eich gwllau .

Iawn, dw i wedi penderfynu, dw i'n mynd, felly esgidiau ymlaen a ffwrdd â fi. Mae yna awel, tipyn bach gryfach nag ysgafn ac yn iachus, neis iawn. Does neb o gwmpas ond mae'r adar yn canu, pa fath ydyn nhw? Mae'n rhaid i mi gyfaddef, ychydig iawn dw i'n adnabod wrth eu caneuon, dw i'n gwyllo 'Natur a Ni' ac mae Daniel Jenkins Jones yn gwneud ei orau. Swnio'n hawdd pan dach chi o flaen y teledu ond tu allan yn y wlad efo'r holl adar yn canu dros ei gilydd mae pethau'n hollol wahanol. Dw i'n adnabod yr ysguthan 'dw dw dw dwdw' ac maen nhw ym mhob man ond arhoswch! Mae un arall yn canu 'dw dw dw' a'r gân yna oedd yn cael ei drafod ar y rhaglen wythnos diwethaf. Hwrê, dyna'r golomen turtur, aderyn tipyn bach mwy classi na'r ysguthan. Dyn ni'n dysgu rhywbeth pob dydd a finnau wedi dysgu mor gynnar yn y bore dw i wedi cael cwota heddiw a does dim rhaid i mi boeni bellach, tan yfory!

Dw i dri chwarter ffordd trwy'r daith erbyn hyn ac mae haul newydd y bore yn goleuo'r coed a'r tai o'n cwmpas. Croeso i'r diwrnod newydd.

[Type here]

Y Wennol

Cyfrol 1 Rhif 6

[Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com](mailto:bobwennol@ntlworld.com)

Mewn tipyn dros deg munud dw i'n cyrraedd y tŷ, dw i'n cofio gweld y lleuad lawn yn goleuo'r awyr. Dydw i ddim wedi gweld neb, heblaw am ddau gar. Brensiach! Mynd am dro dan y lleuad lawn. Ydy hynny'n dweud rhywbeth?



A wel, yn ôl at y peiriant coffi felly i ystyried y peth!

Want to contribute ? But ...

It takes a bit of courage to write in a language which you have only recently learned, particularly Welsh. There are mutations to think about and the question of whether something is masculine or feminine. Nobody wants to make a mistake and feel foolish, not that you should feel foolish. You would be admired for trying. If only there was a way of checking everything you have written ... well, good news – there is.

Canolfan Bedwyr, part of Bangor University has developed software called Cysill and it will check your spelling, mutations and whether you have got the gender right. You can install it so it works through Microsoft Word but at the moment I can't seem to get the details up on screen. However there is also an online version where you cut and paste your text into the box (you will

have to do it bit by bit). You just need to press the button and watch it work.

Also did you know that you can install Welsh language software so that mis-spellings are highlighted as you type. You can get that, and instructions about installation from the Microsoft website.

So there you are, do all that and try out your new software by, say, writing a story and when you are happy with it send it to me. I will then run my eye over it and you will have your first story published – and won't you feel proud!

Cysill Ar Lein – just put “Cysill ar lein” in your search engine and then just use cut and paste.

Please don't try to learn this vocabulary, just refer to it for the stories. Read as much as you can and your brain will slot everything into the right compartments. Trust me!

Geirfa

Tipyn o Wiwer

Wrth ei fodd – delighted
Cyfaddef – to confess
Rhewgell – freezer
Cnwd – crop
Cymhleth – complicated
Mwyar duon – blackberries
Eirin duon bach - sloes
Datblygu – to develop
Aflonyddwch – obsession
Heneiddio – to get older

Llefydd i'w gweld

Dewision – choices
Cynnwys – include
Maen prawf – yardstick
Cyfuniad – combination
Elfennau – elements
Harddwch naturiol – natural beauty
Hanfodol – essential
Unigryw – unique
Llandeilo Ferwallt – Bishopston

Cyferbyniad – contrast
Penrhyn Gŵyr – Gower peninsula
Dychmygu – to imagine
O ganlyniad – as a result (of)
Chwarel calchfaen – Limestone quarry
Llusgo – to drag
Clogwyn – cliff
Môr- falbiau – sea cocks
Twyni cerrig – pebble dunes
Nodweddiadol – typical
Ar gyrion – on the outskirts
Ar y naill law – on the one hand
Dyn dadleuol – controversial man
Yn enwedig – especially
Canghellor y Trysorlys - Chancellor of the Exchequer
Penderfynol – determined
Cyflwyno – to introduce
Llesiant cymdeithasol – community health
Pensiynau henoed – old age pensions
Yn ogystal â – as well as
Cynyddu – to increase
Trethi – taxes
Crydd – shoemaker
Gweithdy – workshop
Cynllunio – to design
Mynedfa – entrance
Clwyd – gate
Bwa cerrig – stone arch
Clôs hirgrwn – oval close
Muriau isel – low walls
Swynol – enchanting
Yn y cefndir – in the background

Rhifau personol

Canolbwyntio – to concentrate, focus
Fy nharo i – to strike me
Dychymyg – imagination
Mynd yn wyllt – to go wild
Tu ôl i'r llyw – behind the wheel

Chwythu stêm

Pen draw – the far end
Cwbl ymwybodol – totally aware
Allt, ellydd – hill, hills
Hoe fach – a little rest
Blin – cross

Tyddyn – small farm
Atgofion melys – sweet memories
Gwthio – to push
Dysgu yn y Cyfnod Clo
Bwriadu – to intend
Cyn pen dim – before long
Profiad – experience
Sain – sound
Cymdeithasu – to socialise
Cyrraedd – to arrive
Cyfleuoedd – opportunities
Sawl ardal - many areas
Tramor – overseas
Bryste – Bristol
Hel clecs – to gossip
Rhyngwladol – internationally
Diflasu – to be bored
Cyfnod clo – the lockdown
Manteisio – to take advantage of
Cofrestru – to register
Cwrs dwys – intensive course
Blinedig – tiring
Serch hynny – in spite of that
Cyd-ddysgwyr – fellow students
Wyneb yn wyneb – face to face
Cymathu – to assimilate

Lloerig

Tybed – I wonder
Cangen – branch
Rhuo – to roar
Tynnu at – coming up to
Amyneddgar – patiently
Fy marn i – my opinion
Eich fordd o fyw – your way of life
Clud – cosy
Iachus – healthy, bracing
Ysguthan – woodpigeon
Arhoswch! – wait!
Colomen turtur – turtle dove
Lleuad lawn – full moon